**Neges 25.09.26**

| | |
|---|---|
| **1. ADBORTH O'R WYTHNOS GROESO**<br><br>Diolch i chi gyd a gwblhaodd y ffurflen adborth ar gyfer yr Wythnos Groeso. Rhoddodd 99.5% ohonoch sgôr o 3 neu uwch i'r profiad.<br><br>Ymhlith y pethau cadarnhaol allweddol a nodwyd roedd staff croesawgar a chefnogol, eglurder ynghylch y flwyddyn a'r lleoliadau, perthnasoedd cynnar â thiwtoriaid/cyfoedion, a gwybod ble mae cefnogaeth ar gael.<br><br>Ymhlith yr awgrymiadau ar gyfer sut y gallem wneud yn well roedd trwsio'r tagfeydd cofrestru/DBS, lleihau dyblygu a gorlwytho gwybodaeth, cael myfyrwyr i grwpiau llai ystyrlon yn gynt, a darparu gwybodaeth fanylach am fodiwlau/aseiniadau yn gynharach. Byddwn yn edrych ar sut y gallwn weithio ar y rhain ar gyfer y flwyddyn nesaf. | **1. FEEDBACK FROM WELCOME WEEK**<br><br>Thanks to all of you who completed the feedback form for Welcome week. 99.5% of you rated the experience 3 or higher.<br><br>Key positives noted included welcoming and supportive staff, clarity about the year and placements, early relationships with tutors/peers, and knowing where support is available.<br><br>Suggestions for how we could do better included fixing the enrolment/DBS bottleneck, reduce duplication and information overload, get students into meaningful smaller groups sooner, and provide more detailed module/assignment information earlier. We'll look at how we can work on these for next year. |
| **2. ATGOFFWYR**<br><br>**Cynrychiolwyr Grŵp**<br><br>A wnaiff y cynrychiolwyr myfyrwyr o bob grŵp e-bostio Jayne erbyn diwedd dydd Llun i roi gwybod iddi pwy fydd y cynrychiolwyr o bob grŵp.<br><br>**Lluniau:**<br><br>Peidiwch â chymryd a rhannu lluniau ar y campws neu yn yr ysgol heb wirio am ganiatâd y bobl yn y lluniau. Ni ddylid tynnu unrhyw luniau yn yr ysgol heb wybodaeth a chaniatâd yr ysgol. | **2. REMINDERS:**<br><br>**Group Reps**<br><br>Please could the student reps from each group email Jayne by the end of Monday to let her know who the reps from each group will be.<br><br>**Photographs:**<br><br>Please do not take and share photographs on campus or in school without checking for the consent of the people in the photographs. No photographs should be taken in school without the knowledge and consent of the school. |
| **3. YR WYTHNOS I DDOD** | **3. THE WEEK AHEAD** |

| **Tasgau Datblygu Proffesiynol – Dydd Mercher** | **Professional Development Tasks – Wednesday** |
| --- | --- |
| Bydd dwy dasg yn cael eu gosod yr wythnos hon.<br><br>Bydd y gyntaf yn ymwneud â chasglu data ar gyfer eich diwrnod cyntaf ar leoliad. Gofynnwn i chi gadarnhau eich bod wedi gallu mynychu (neu beidio), eich bod wedi derbyn eich briff ar ddiogelu, a rhannu enw a chyfeiriad e-bost eich mentor dosbarth. Os nad ydych yn gwybod y wybodaeth hon erbyn diwedd dydd Mawrth, bydd cyfle i'w chwblhau eto ar ddiwedd yr wythnos.<br><br>Bydd yr ail dasg yn ymwneud â sefydlu eich Pasbort Dysgu Proffesiynol ar blatfform 'PebblePad' y CGA. Anfonir manylion mewngofnodi atoch drwy e-bost gan y CGA rywbryd ddydd Mawrth. Dim ond am 48 awr y bydd y ddolen fewngofnodi yn ddilys, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn neilltuo amser ddydd Mercher i gwblhau'r broses fewngofnodi a sefydlu'r cyfrif. Bydd cyfarwyddiadau manwl yn cael eu rhannu ar Teams.<br><br>**Yr wythnos  i ddod ar gyfer TAR Cynradd**<br><br>Dydd Llun: Siaradwyr gwadd o ysgolion – am / Gwybodaeth am ddydd Iau – pm (A 307, BCE 002, DF 306)<br><br>Dydd Mawrth: Y diwrnod cyntaf yn yr ysgol leoliad<br><br>Dydd Mercher: Cymraeg / Datblygiad Proffesiynol. Gwiriwch eich amserlen am amser a lleoliad eich sesiwn Gymraeg.<br><br>Dydd Iau: Diwrnod Allan<br><br>Dydd Gwener: Lleoliad | There will be two tasks set this week.<br><br>The first will be a data capture for your first day on placement. We'll ask you to confirm that you were able to attend (or not), that you received your safeguarding briefing, and to share the name and email address of your class mentor. If you don't know any of this information by the end of Tuesday, there will be chance to complete it again at the end of the week.<br><br>The second will be to set up your Professional Learning Passport on the EWC 'Pebble pad' platform. Login details will be emailed to you from the EWC at some point on Tuesday. The link to sign in will only be valid for 48 hours, so please ensure you take some time on Wednesday to complete the sign in and set-up. Detailed instructions will be shared on Teams.<br><br>**The coming week for PGCE Primary**<br><br>Monday: Guest speakers from schools – am / Information about Thursday – pm (A 307, BCE 002, DF 306)<br><br>Tuesday: First day in placement school<br><br>Wednesday: Cymraeg  / Professional Development. Please check your timetable for the time and location of your Welsh session.<br><br>Thursday: Out & About Day<br><br>Friday: Placement<br><br>**The coming week for PGCE Secondary** |

| | |
|---|---|
| **Yr wythnos i ddod ar gyfer TAR Uwchradd**<br><br>Dydd Llun: Byddwn yn gweithio yn yr Adeilad Dynevor yn Abertawe (gweler yma - https://maps.app.goo.gl/MqAt3HrwvHLJ6qDWA)<br><br>Maes parcio agosaf y Brifysgol yw "East Burrows", o flaen Canolfan Dylan Thomas (https://maps.app.goo.gl/8yhF9iZGLwog357M9)<br><br>Dydd Mawrth: Y diwrnod cyntaf yn yr ysgol leoliad<br><br>Dydd Mercher: Cymraeg / Datblygiad Proffesiynol. Gwiriwch eich amserlen am amser a lleoliad eich sesiwn Gymraeg.<br><br>Dydd Iau: Ar leoliad<br><br>Dydd Gwener: Arwain y Dysgu (IQ310 ar ddechrau'r dydd) | Monday: We'll be based in the Dynevor Building in Swansea (see here - https://maps.app.goo.gl/MqAt3HrwvHLJ6qDWA)<br><br>The closest University car park is East Burrows, in front of the Dylan Thomas Centre (https://maps.app.goo.gl/8yhF9iZGLwog357M9)<br><br>Tuesday: First day in placement school<br><br>Wednesday: Cymraeg / Professional Development. Please check your timetable for the time and location of your Welsh session.<br><br>Thursday: Placement<br><br>Friday: Leading the Learning (IQ310 for the start of the day) |